# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Cyffredinol*

## 13 Preserfio deunydd at ei drawsblannu

(1) Pan fo rhan o gorff person ymadawedig sy'n gorwedd mewn ysbyty, cartref nyrsio neu sefydliad arall yng Nghymru yn addas neu o bosibl yn addas i'w defnyddio mewn trawsblaniad, mae'n gyfreithlon i'r person sy'n llywio neu'n rheoli'r sefydliad—

(a) cymryd camau at breserfio'r rhan i'w defnyddio mewn trawsblaniad, a

(b) cadw'r corff at y diben hwnnw.

(2) Nid yw awdurdod o dan is-adran (1)(a) yn ymestyn ond at—

(a) cymryd y lleiafswm o gamau angenrheidiol at y diben a grybwyllir yn y ddarpariaeth honno, a

(b) y defnydd o'r dull lleiaf mewnwthiol.

(3) Mae awdurdod o dan is-adran (1) yn peidio â bod yn gymwys pan fydd wedi ei chadarnhau nad yw cydsyniad datganedig sy'n ei gwneud hi'n gyfreithlon i dynnu'r rhan i'w thrawsblannu wedi ei roi, ac na fydd yn cael ei roi ac nad yw'n cael ei ystyried bod cydsyniad wedi ei roi.

(4) Mae awdurdod o dan is-adran (1) yn ymestyn i unrhyw berson a awdurdodir i weithredu o dan yr awdurdod gan—

(a) y person y rhoddir yr awdurdod iddo gan yr is-adran honno, neu

(b) person a awdurdodir o dan yr is-adran honno i weithredu o dan yr awdurdod hwnnw.

(5) Mae gweithred a wneir ag awdurdod o dan is-adran (1) i'w thrin fel un nad yw'n weithgaredd y mae adran 3 yn gymwys iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(1)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 1.12.2015 gan O.S. 2015/1679, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Adran 13.